# Cwrs Sgiliau Addysgu i Fyfyrwyr Ymchwil

**Ystafell 344, Yr Ysgol Reolaeth, Campws y Bae, Prifysgol Abertawe**

**Dydd Gwener, 16 Mai 2025**

Mae rhagor o wybodaeth am Raglen Hyfforddiant Sgiliau Ymchwil y Coleg Cymraeg ar y dudalen hon, neu cysylltwch â Dr Manon Elin James: m.james@colegcymraeg.ac.uk.

## Amserlen

| | |
|---|---|
| 10:30 – 10:45 | Cyrraedd, croeso a phaned |
| 10:45 – 11:45 | Sesiwn 1, rhan 1 |
| 11:45 – 12:00 | Egwyl |
| 12:00 – 12:45 | Sesiwn 1, rhan 2 |
| 12:45 – 13:30 | Cinio (darperir cinio am ddim) |
| 13:30 – 14:45 | Sesiwn 2, rhan 1 |
| 14:45 – 15:00 | Egwyl |
| 15:00 – 16:00 | Sesiwn 2, rhan 2 |
| 16:00 | Cloi a gadael |

## Cyflwynydd: Dyddgu Morgan-Hywel

## Bywgraffiad

Astudiodd Dyddgu gwrs 'BSc (Anrh.) Dylunio a Thechnoleg Addysg Uwchradd yn arwain at Statws Athro Cymwysedig' ym Mhrifysgol Bangor, a graddiodd gyda gradd dosbarth cyntaf.

Bu'n ddarlithydd a thiwtor pwnc Dylunio a Thechnoleg Lefel A yng Ngholeg Meirion Dwyfor, athrawes Dylunio a Thechnoleg yn Ysgol Gyfun Rhydywaun, ac yn uwch-ddarlithydd Addysg ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd am ddeng mlynedd.

Mae Dyddgu bellach yn Rheolwr Comisiynu ac Ansawdd gydag Adnodd, cwmni hyd braich Llywodraeth Cymru sydd â throsolwg strategol dros dirwedd adnoddau dwyieithog i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

## Cynnwys

Bydd y gweithdy hwn o fudd i fyfyrwyr ôl-radd sydd yn camu i'r byd addysgu am y tro cyntaf, ac eisiau datblygu ar lawr y dosbarth ac ar-lein wrth addysgu'n hyderus ac yn arloesol.

### Amcanion y gweithdy

- Gwybodaeth broffesiynol - datblygu eich gwybodaeth am y pwnc y byddwch yn ei ddysgu;
- Gwybodaeth fethodolegol - cyflwyniad i theori sy'n sail i ddysgu ac arferion addysgu (arddulliau dysgu);
- Sgiliau dynameg grŵp penodol - dynameg grŵp, strategaethau ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd.

### Cynnwys

#### Dysgu, addysgu ac asesu

- Dysgu'r sgiliau allweddol sy'n ymwneud â chynllunio gwaith addysgu;
- Dysgu'r amrywiaeth o sgiliau cwestiynu sy'n hwyluso'r broses addysgu.
- Dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o ddulliau addysgu gyda grwpiau bach;
- Dod i ddeall rhai egwyddorion allweddol sy'n ymwneud ag asesu.

#### Integreiddio Technoleg

Cyflwyniad i offer a meddalwedd digidol er mwyn ymgysylltu myfyrwyr a gwella'r profiad dysgu gan gynnwys:

- Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn Addysg
- Realiti Rhithwir (VR) mewn Addysg
- Technoleg Iaith

## Cynhwysiant Addysgu

- Cyflwyno Sgiliau addysgu cynhwysol
- Anghenion dysgu amrywiol ac anghenion myfyrwyr
- Hyrwyddo amgylchedd cynhwysol.

## Gofal bugeiliol

Tiwtor personol / iechyd a lles myfyrwyr mewn Addysg

- Deall rhinweddau personol tiwtor da;
- Deall canfyddiadau myfyrwyr o diwtor da;
- Deall y sgiliau cyfathrebu allweddol sydd eu hangen ar diwtor da.